

HERIO PENDERFYNIADAU AM DALIADAU ANNIBYNIATH PERSONOL – gwneud cais am ailystyried gorfodol.



Os ydych yn aflwyddiannus yn eich cais am Daliadau Annibyniaeth Personol (Personal Independence Payment - PIP), neu os ydych yn anfodlon â lefel y budd-dal a ddyfarnwyd, gallwch ofyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau (Department of Work and Pensions - DWP) edrych ar ei benderfyniad eto. Ailystyried gorfodol yw hyn, a dyma ran gyntaf y broses apêl. Mae'n rhaid i chi ofyn am ailystyried gorfodol cyn i chi allu gwneud apêl. Byddwch yn ofalus, fodd bynnag, oherwydd pan fyddwch yn gofyn am ailystyried, byddant yn edrych ar y dyfarniad cyfan, a gallent dynnu yn ôl y gyfradd a ddyfarnwyd eisoes. Os ydych yn ansicr gofynnwch am gyngor.

- Dim ond mis sydd gennych, o ddyddiad y penderfyniad, i ofyn am iddynt ailystyried y penderfyniad, felly gweithredwch ar unwaith.
- Ffoniwch DWP a dywedwch wrthynt nhw eich bod am iddynt ailystyried y penderfyniad, a gofynnwch iddynt gadarnhau bod eich cais wedi cael ei gofnodi. Yn ystod yr alwad hon dywedwch wrthynt, cyn iddynt ailystyried y penderfyniad, y byddech yn hoffi gweld adroddiad yr asesydd gofal iechyd, a'ch bod am gael y cyfle i roi sylwadau ar yr adroddiad cyn i'r ailystyried digwydd.
- Rhowch eich cais ar bapur, hefyd, a'i anfon at y cyfeiriad ar y llythyr o benderfyniad – cadwch gopi o'r llythyr i chi'ch hun. Os nad ydych yn derbyn copi o lythyr yr aseswr o fewn pythefnos, ffoniwch nhw eto i'w hatgoffa.

Gofynnwch am gyngor ac arweiniad cyn gynted ag y bo modd. Efallai bydd Shine yn gallu eich helpu - cysylltwch â'ch Gweithiwr Cefnogi a Datblygu SHINE lleol, neu ein Swyddfa Genedlaethol ar 01733 555988, i gael gwybod rhagor. Efallai bydd Cyngor ar Bopeth neu asiantaeth gyngor lleol yn gallu eich cynorthwyo - gofynnwch am gyngor ar unwaith, peidiwch ag aros.

- Cyn gynted ag y byddwch yn derbyn copi o'r adroddiad gan yr aseswr gofal iechyd, cymharwch yr adroddiad â'ch cofnodion chi ar y ffurflenni PIP.
- Ceisiwch gael tystiolaeth feddygol i ddangos fod yr hyn a ddywedwyd gennych ar y ffurflenni yn gywir. Cofiwch y bydd rhai gweithwyr meddygol proffesiynol yn codi tâl arnoch chi am adroddiad. Os yw eich gweithiwr Cefnogi a Datblygu SHINE yn eich adnabod yn dda, efallai y byddan nhw hefyd mewn sefyllfa i ysgrifennu adroddiad.
- Os yw'n debygol o gymryd sawl wythnos i gael y dystiolaeth feddygol, rhaid i chi roi gwybod i DWP faint o amser mae hyn yn debygol o gymryd, er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwneud penderfyniad ar unwaith.
- Cofiwch eich bod yn cadw copïau o unrhyw adroddiadau/llythyrau yr ydych yn eu hanfon i mewn.

W: shinecharity.org.uk • E: Wales@shinecharity.org.uk • T: 07789 616416



SHINE – Spina bifida • Hydrocephalus • Information • Networking • Equality
Shine, 42 Park Road, Peterborough, PE1 2UQ
www.shinecharity.org.uk • firstcontact@shinecharity.org.uk • 01733 555988
Registered Charity No. 249338 • VAT number 135 6056 23



Herio Penderfyniadau Am Daliadau Annibyniaeth Personol



Pan fydd gennych y dystiolaeth i gefnogi eich achos, ceisiwch gael help i ysgrifennu ac egluro pam eich bod yn credu bod y penderfyniad yn anghywir, ac egluro pam yr ydych yn credu y dylech fod wedi sgorio pwyntiau digonol yn yr asesiad. Y mwyaf o wybodaeth y gallwch ei darparu i gefnogi eich achos, gorau oll fydd eich cyfle o gael eich penderfyniad wedi'i newid.

Os byddwch yn methu'r terfyn amser o fis i ofyn am ailystyried, gofynnwch am gyngor, gan y gall weithiau fod yn bosibl cael eich cais wedi'i dderbyn yn hwyr, ar yr amod eich bod yn gwneud y cais hwn o fewn 13 mis o'r penderfyniad gwreiddiol.

Cofiwch fod y weithdrefn asesu ar gyfer PIP yn fwy trylwyr nac ar gyfer Lwfans Byw Anabledd (Disability Living Allowance - DLA), ac weithiau na fydd pobl yn bodloni'r amodau cymhwyso llymach. Dwy gyfradd yn unig o'r gydran byw bob dydd sydd gan PIP – nid yw anghenion gofal yn ystod y nos yn cael eu hystyried mwyach, a bydd angen i'r bobl oedd yn gymwys ar gyfer DLA drwy'r prawf prif bryd o fwyd yn unig, sgorio rhagor o bwyntiau er mwyn bod yn gymwys ar PIP. Mae'r rheoliadau ynghylch y pellter y gallwch ei gerdded y tu allan wedi newid hefyd, gofynnwch am gyngor am y newidiadau.

Pan fyddwch yn derbyn penderfyniad wedi'i ailystyried, os ydych yn dal i anghytuno â'r penderfyniad, gallwch apelio i driwlynys. Rhaid i chi apelio o fewn mis i'r dyddiad ar yr hysbysiad ailystyried gorfodol. Gofynnwch am gyngor eto i'ch cynorthwyo gyda'r apêl.

Awst 2015



THE MILLENNIUM STADIUM
CHARITABLE TRUST
YMDIRIEDOLAETH ELUSENNOL
STADIWM Y MILLENIWM

W: shinecharity.org.uk • E: Wales@shinecharity.org.uk • T: 07789 616416



SHINE – Spina bifida • Hydrocephalus • Information • Networking • Equality
Shine, 42 Park Road, Peterborough, PE1 2UQ
www.shinecharity.org.uk • firstcontact@shinecharity.org.uk • 01733 555988
Registered Charity No. 249338 • VAT number 135 6056 23

